



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: LIC46940

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Drafft ar gyfer Trafnidiaeth: 2022 i 2027

27 Ionawr 2023

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, LIC46940, ISBN Digidol 978-1-83504-482-7

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Beth oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?	4
3	Yr ymatebion	4
4	Trosolwg o'r ymatebion i bob cwestiwn	5
4.1	C1. Yn eich barn chi, a fydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod pobl yn newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy?.....	5
4.2	C2. Yn eich barn chi, a fydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth?	5
4.3	C3. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r prif flaenoriaethau 5 mlynedd a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021? Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?	6
4.4	C4. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r uchelgeisiau llesiant a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?	7
4.5	C5. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r prif flaenoriaethau 5 mlynedd a nodir ym mhob un o'r cynlluniau bach ar gyfer dulliau teithio a sectorau yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?	7
4.6	C6. Yn eich barn chi, a yw'r cynllun yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y dulliau teithio a'r sectorau er mwyn cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?	8
4.7	C7. Yn eich barn chi, a yw Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn nodi'r materion cynaliadwyedd pwysicaf sy'n ymwneud â'r cynllun?	9
4.8	C8. A oes gennych unrhyw adborth neu sylwadau pellach ar y cynllun?	9
4.9	Cwestiwn A. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?.....	10
4.10	Cwestiwn B. Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig, Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027, er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	10
4.11	Cwestiwn C. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt:	11
5	Ymatebion a Chyflawni Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021	12

6	Crynodeb	13
7	Cyfeiriadau	15
8	Atodiadau	16

1 Cyflwyniad

Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Drafft ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 (y cynllun) yw'r cynllun cyflawni pum mlynedd cyntaf i Lywodraeth Cymru ei roi ar waith [Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021](#). Mae'r strategaeth yn nodi tair blaenoriaeth:

- Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio.
- Blaenoriaeth 2: Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.
- **Blaenoriaeth 3:** Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar gyfer y cynllun rhwng 19 Gorffennaf 2022 ac 11 Hydref 2022. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn nodi'r camau nesaf.

2 Beth oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

Er mwyn datblygu fersiwn derfynol Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027, ceisiwyd barn amrywiaeth o randdeiliaid ar y cynllun drafft drwy arolwg ar-lein a gohebiaeth ysgrifenedig.

3 Yr ymatebion

Cafwyd cyfanswm o 97 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu rhwng y categorïau sefydliadol gwahanol, gyda 52% ohonynt o'r categorïau 'Unigolyn preifat' ac 'Arall'. Roedd rhai o'r ymatebion wedi'u cwblhau'n rhannol gyda'r ymatebwyr yn dewis peidio â rhoi ymateb na sylw ar gyfer pob cwestiwn. Rhestrir yr ymatebwyr yn Atodiad 1. Cafwyd amrywiaeth o ymatebwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau ac ardaloedd daearyddol.

Mae pob un o'r ymatebion wedi'u hystyried yn llawn a byddant yn llywio'r broses o gwblhau Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 a'i roi ar waith.

4 Trosolwg o'r ymatebion i bob cwestiwn

4.1 C1. Yn eich barn chi, a fydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod pobl yn newid i dulliau teithio mwy cynaliadwy?

Ymateb	Nifer
Cadarnhaol iawn	6
Cadarnhaol	34
Niwtral	21
Negyddol	14
Negyddol iawn	10
Dim barn	12

Roedd 41% (40) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod pobl yn newid i dulliau teithio mwy cynaliadwy, ac roedd 25% (24) o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol neu negyddol iawn. Ymysg yr awgrymiadau roedd rhoi mwy o ystyriaeth i rwystrau cymunedol, gan gynnwys cysylltedd, anghenion cymdeithasol, fforddiadwyedd a llythrennedd a mynediad digidol er mwyn galluogi pobl i newid dulliau teithio.

Gofynnwyd hefyd am i'r cynllun fynd i'r afael yn gliriach ag anghydraddoldeb gwledig a rhoi mwy o eglurder i awdurdodau lleol, yn ogystal â rhoi mwy o eglurder ynghylch y broses o gyllido gwaith uwchraddio a chynnal a chadw seilwaith, rolau a chyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan ddechrau cludo llwythi ar y rheilffyrdd yn hytrach na'r ffyrdd ac integreiddio coetsys yn y cynllun. Ystyriwyd bod mwy o gydweithredu yn hanfodol i dargedau a llwyddiant hirdymor Llwybr Newydd.

4.2 C2. Yn eich barn chi, a fydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth?

Ymateb	Nifer
Cadarnhaol iawn	6
Cadarnhaol	36
Niwtral	22
Negyddol	13
Negyddol iawn	7
Dim barn	13

Roedd 43% (42) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar y targedau, gan ganmol y modd yr oedd yn cyd-fynd â Llwybrau Newydd a'r dull cynhwysfawr o newid dulliau teithio.

Roedd 21% (20) o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n cael effaith negyddol neu negyddol iawn, gan nodi bod angen buddsoddiad sylweddol mewn ardaloedd gwledig er mwyn lleihau dibyniaeth ar geir preifat a bod y targedau'n dibynnu ar newid systemig.

Roedd rhai pryderon y gallai gostwng y terfyn cyflymder arwain at fwy o dagfeydd a llygredd aer ac er bod rhai o blaid codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn codi refeniw, roedd eraill yn pryderu am yr effaith ar gymunedau llai cysylltiedig. Cafwyd awgrym hefyd fod angen sefydlu seilwaith a gwasanaethau cyn i gynlluniau codi tâl gael eu rhoi ar waith.

Ymysg yr awgrymiadau eraill roedd trydaneiddio mwy o'r rheilffyrdd; rhwydwaith gwell o fannau gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer ceir ac e-feiciau, gyda chadeiriau olwyn wedi'u pweru yn gallu defnyddio'r rhain hefyd; a mwy o bwyslais ar leihau nifer y teithiau cludo llwythi ar y ffyrdd a nifer y teithiau awyr gan gydbwysu anghenion yr economi busnes.

Er mwyn i'r cynllun gael ei gyflawni, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid pennu pethau i'w cyflawni a thargedau, gan gynnwys gostwng nifer y milltiroedd a deithir mewn ceir.

4.3 C3. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r prif flaenoriaethau 5 mlynedd a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021? Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?

Ymateb	Nifer
Yn llawn	5
Yn rhannol	25
Mewn ffordd gyfyngedig	31
Ddim o gwbl	16
Ansicr	7
Dim barn	13

Roedd 5% (5) o'r ymatebwyr yn llawn gredu y byddai'r cynllun yn cyflawni'r blaenoriaethau, roedd 26% (25) yn credu y byddai'n eu cyflawni'n rhannol ac roedd 32% (31) yn credu y byddai'n eu cyflawni mewn ffordd gyfyngedig, gan godi pryderon ynghylch cyllido ac awgrymu bod angen dull cydweithredol o ymdrin â buddsoddi a refeniw hirdymor.

Ymysg yr awgrymiadau eraill roedd diffinio'n glir y pethau i'w cyflawni, monitro ac ymchwilio er mwyn deall canlyniadau a sicrhau'r effeithiau gorau posibl; gwella prosesau mewnol ar gyfer cyflawni prosiectau er mwyn symleiddio costau; cydweithio'n agosach ag awdurdodau lleol; a hwyluso adolygiad TAN18.

Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd yn pryderu am fforddiadwyedd a chynhwysiant ac y gall cyllid gael ei ffocysu ar ardaloedd trefol, gan ychwanegu at yr anfantais a wynebier mewn cymunedau gwledig.

4.4 C4. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r uchelgeisiau llesiant a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?

Ymateb	Nifer
Yn llawn	5
Yn rhannol	28
Mewn ffordd gyfyngedig	20
Ddim o gwbl	23
Ansicr	9
Dim barn	12

Roedd 5% (5) o'r ymatebwyr yn llawn gredu y byddai'r cynllun yn cyflawni'r uchelgeisiau, roedd 29% (28) yn credu y byddai'n eu cyflawni'n rhannol ac roedd 21% (20) yn credu y byddai'n eu cyflawni mewn ffordd gyfyngedig. Codwyd pryderon ynghylch y baich ariannol a'r effaith ar ardaloedd gwledig, yn cynnwys llai o fynediad at addysg, cyflogaeth a hamdden. Roedd pryder hefyd y gallai'r cynllun gynyddu'r bwch economaidd-gymdeithasol mewn cymunedau.

Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys: gwella diogelwch a hygyrchedd ar drafnidiaeth gyhoeddus; sicrhau dull cydlynus ledled Cymru; ehangu cynlluniau teithio rhatach i weithwyr rhan-amser; a sicrhau mwy o gydweithredu rhwng sectorau, gwasanaethau a chymunedau.

Awgrymwyd hefyd y dylid pennu camau gweithredu a thargedau ar gyfer pob un o'r pethau i'w cyflawni.

4.5 C5. Yn eich barn chi, i ba raddau, o fewn y cyllid sydd ar gael, y bydd y cynllun yn cyflawni'r prif flaenoriaethau 5 mlynedd a nodir ym mhob un o'r cynlluniau bach ar gyfer dulliau teithio a sectorau yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?

Ymateb	Nifer
Cytuno'n gryf	5
Cytuno	21
Niwtral	29
Anghytuno	17
Anghytuno'n Gryf	10
Dim barn	15

Cymysg oedd barn yr ymatebwyr ynghylch gallu'r cynllun i gyflawni'r blaenoriaethau pum mlynedd, gyda 27% (26) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf a 28% (27) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

Nododd rhai ymatebwyr ddiffyg ymrwymiadau cyflawni a chyllideb gyfatebol ac roeddent yn pryderu y byddai'r blaenoriaethau'n cymryd mwy o amser i'w cyflawni.

Gwnaed amrywiaeth o awgrymiadau, gan gynnwys rhoi mwy o ffocws ar newid ymddygiad o ran Teithio Llesol; sicrhau cydraddoldeb a hygyrchedd ar draws pob dull teithio; mwy o gydweithredu rhwng sectorau trafndiaeth er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig; a'r angen am strategaeth cyllido hirdymor.

Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am fesurau i sicrhau nad yw'r ymyriadau diogelwch yn y cynllun bach rheilffyrdd yn effeithio ar lwybrau a ddefnyddir gan feicwyr a cherddwyr. Ymysg yr awgrymiadau eraill roedd sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer rheilffyrdd treftadaeth yn cael eu cydnabod; bod hygyrchedd a thrwyddedau ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat yn cael eu gwella; bod mentrau'n cael eu treialu a'u monitro cyn cael eu cyflwyno; bod cynllun benthyciadau e-feicio a llogi beiciau'n cael ei ddatblygu ledled Cymru.

Er bod rhai am weld llai o bwyslais ar briffyrdd, gofynnodd rhai ymatebwyr am i fudd economaidd priffyrdd gael ei gydnabod, ac i waith cynnal a chadw ac adnewyddu gael ei gynnwys yn y cynllun.

Roedd rhai pryderon hefyd ynghylch diffyg arbenigedd ar draws y sector o ran Teithio Llesol a'r gallu i'w gyflawni. Teimlai ymatebwyr bod angen mynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau'n cael eu cyflawni.

4.6 C6. Yn eich barn chi, a yw'r cynllun yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng y dulliau teithio a'r sectorau er mwyn cyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a nodir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021?

O'r 72 o ymatebwyr a nododd Ydw neu Nac ydw i'r cwestiwn hwn, roedd **26% (19) yn cytuno** ac roedd **32% (23) yn anghytuno bod y cynllun yn cynnig y cydbwysedd cywir**.

Er bod llawer o gefnogaeth i Deithio Llesol, cododd 18% (13) o'r ymatebwyr bryderon nad oedd y gwaith o ddatblygu a chynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd lleol wedi'i gynnwys yn y cynllun, ac aeth rhai ymlaen i sôn am bwysigrwydd ffyrdd i feicwyr, bysiau, cerbydau brys a busnesau. Gofynnodd rhai hefyd am i ddatblygiadau newydd barhau i gynnwys mynediad ar ffyrdd.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch y baich ariannol ar bobl Cymru, a thynnodd eraill sylw at anghenion teithio rhai adrannau o'r gymdeithas, fel pobl hŷn neu bobl â llai o symudedd a'r rheini ag anabledd ac y dylid ystyried y rhain yn llawn er mwyn osgoi cyfyngu ar y gallu i gael gafael ar wasanaethau.

Ymysg yr awgrymiadau eraill roedd sicrhau bod bysiau a choetsys yn chwarae rôl allweddol, rhoi mwy o eglurder o ran sut i newid mewn ymddygiad a'r broses o rannu buddsoddiad rhwng y dulliau teithio, ynghyd ag atgyfnerthu cydweithrediad rhwng sectorau a gweithredwyr yn y cynllun a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau na fydd y dull gweithredu'n mynd yn ddarniog.

Er y cafwyd canmoliaeth i uchelgais y cynllun, roedd dau o'r ymatebwyr yn pryderu efallai nad oedd yn gyflawnadwy yn yr economi presennol ac, felly, y dylid rheoli disgwyliadau'r cyhoedd.

4.7 C7. Yn eich barn chi, a yw Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn nodi'r materion cynaliadwyedd pwysicaf sy'n ymwneud â'r cynllun?

O'r 65 o ymatebwyr a atebodd Ydw neu Nac ydw i'r cwestiwn hwn, cafwyd cydbwysedd gyda **29% (19) yn credu bod y materion pwysicaf wedi'u nodi** a **29% (19) yn credu nad oeddent wedi'u nodi**.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r cynllun yn llwyddo i leihau nwyon tŷ gwydr yn sylweddol gan nodi y dylid ailystyried y cynllun er mwyn mynd i'r afael â hyn. Awgrymodd un arall y gallai fod yn ddefnyddiol esbonio a yw'r asesiad o nwyon tŷ gwydr yn gysylltiedig ag effeithiau gweithgareddau penodol, fel gwasanaethau hedfan, neu bryderon ehangach am effeithiolrwydd y cynllun.

Cafwyd cais hefyd am gyfeiriad at y Cynllun Ymddasau ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd, yn benodol, y risgiau allweddol a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru mewn perthynas â busnes.

Ymysg y ceisiadau eraill roedd trafndiaeth gyhoeddus rad, gynaliadwy a dibynadwy; cydweithredu â chyflenwyr yn ystod y broses gaffael er mwyn sicrhau dull cynaliadwy a gwerth am arian; blaenoriaethu seilwaith gwyrdd; a chynlluniau rheoli cyrchfannau er mwyn cefnogi cysylltedd â pharciau cenedlaethol.

Tynnodd ymatebwyr hefyd sylw at gydraddoldeb, gan gynnwys ceisiadau am ymyriadau wedi'u targedu at fenywod a phobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig; nodi anghenion pobl anabl yn glir (gan gynnwys y rhai â nam ar eu golwg); cydnabod y rôl bwysig y gall gwybodaeth a thechnoleg ei chwarae; ac atgyfnerthu rôl trafndiaeth gymunedol i gyflawni nodau o ran cydraddoldeb, cynhwysiant a hygyrchedd.

Cafwyd sylw pellach y byddai pob cynllun lleol yn wynebu problemau sy'n benodol i leoliad y byddai angen eu datrys a'u lliniaru.

4.8 C8. A oes gennych unrhyw adborth neu sylwadau pellach ar y cynllun?

Cafodd Teithio Llesol ei groesawu gan lawer o ymatebwyr, a nododd fod angen ymrwymiad cadarn er mwyn i fesurau Teithio Llesol weithio, drwy raglen newid ymddygiad a thrwy gynnwys cymaint â phosibl o gymunedau gwledig.

Er mwyn i drenau fod yn ddeniadol i deithwyr, awgrymodd ymatebwyr fod angen iddynt fod yn gyfforddus, gyda thoiledau a wi-fi dibynadwy ynghyd â system syml i archebu lle ar gyfer beiciau. Dylai fod mwy o gysylltiadau rheilffyrdd hefyd, gan gynnwys cysylltiad rhwng y gogledd a'r de, ond roedd pryder ynghylch y ddibyniaeth fyrdymor ar drenau diesel. Tynnwyd sylw at brinder gyrwyr trenau a bysiau, a gwnaed rhai ceisiadau am gymorth i wella prosesau recriwtio a hyfforddiant ar gyfer y sector hwn.

Nodwyd y gallai'r polisi gweithio gartref effeithio ymhellach ar drafnidiaeth gyhoeddus ac awgrymwyd y dylid annog busnesau i gynnig cymhellion i gyflogwyr ddefnyddio

trafnidiaeth gyhoeddus. Roedd pryder hefyd y byddai'r terfyn cyflymder is yn golygu na fyddai pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio bysiau.

Argymhellwyd hefyd fod angen rhoi mwy o bwyslais ar hygyrchedd er mwyn sicrhau nad yw unigolion yn wynebu anfantais. Gofynnwyd am i effaith cerbydau trydan ar bobl ddall a phobl â nam ar eu golwg gael ei hystyried, ac am gymorth hyfforddiant er mwyn helpu pobl anabl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn well. Er mwyn bod yn fwy cynhwysol, dylid cynnwys olwynio gyda cherdded a beicio wrth drafod Teithio Llesol.

Yn y cynllun, awgrymwyd y dylid rhoi mwy o eglurder ar rolau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a phrosesau'r llywodraeth, gyda mesurau i atgyfnerthu atebolrwydd a thryloywder.

Cafwyd ceisiadau hefyd am i'r cynllun roi mwy o ystyriaeth i bolisïau eraill ar newid yn yr hinsawdd; rhoi mwy o rôl i'r trydydd sector a chydabod buddiannau hynny; cynnwys y sector hamdden a thwristiaeth; ac am i brosiectau a ariennir gan eraill gael eu gwahanu. Gofynnwyd hefyd am i ddata monitro gael eu cyhoeddi.

4.9 Cwestiwn A. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Croesawodd yr ymatebwyr safonau'r Gymraeg ar gyfer bysiau a gofynnwyd a ellid ymestyn y rhain i drenau. Awgrymwyd y dylai staff sy'n delio â chwsmeriaid feddu ar sgiliau Cymraeg; a sicrhau bod pob arwydd, tocyn a dogfen gyhoeddus yn ddwyieithog. Gofynnwyd hefyd am i'r dull hwn gael ei ymestyn i longau morgludo, awyrennau a'r trydydd sector.

Er bod llawer yn croesawu arwyddion a dogfennau dwyieithog, roedd pryder ynghylch cost ac effaith amgylcheddol dogfennau wedi'u hargraffu.

Roedd pryder ynghylch cymunedau gwledig lle mae dwyster uwch o siaradwyr Cymraeg a bod y polisïau i ddarparu trafndiaeth i'r rhain yn ddyheadol ac yn gostus. Nodwyd hefyd fod rhwydwaith trafndiaeth gwell, gan gynnwys ffyrdd, yn cysylltu cymunedau'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol ac yn cynnig cyfleoedd addysg ac economaidd gwell.

4.10 Cwestiwn B. Esboniwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig, Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027, er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol

na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn i gymunedau gwledig, Cymraeg eu hiaith, barhau i fod yn gryf a bywiog, gofynnwyd am i gymorth ar gyfer datblygu economaidd a ffyrdd newydd gael eu cynnwys yn y cynllun.

Ymysg yr awgrymiadau eraill roedd arwyddion dwyieithog; ailagor gorsafoedd lleol i gysylltu cymunedau Cymraeg eu hiaith; cofnodi a chyfeirio at enwau lleoedd yn Gymraeg; cyflwyno Safonau'r Gymraeg ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd; a chyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg yn y sector trafndiaeth.

4.11 Cwestiwn C. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle gwag hwn i roi gwybod amdanynt:

Argymhellwyd y dylid ymestyn hyfforddiant ar Deithio Llesol i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd yr awdurdodau lleol yn pryderu am effaith rhoi'r cynllun ar waith a'i fonitro ar gyllideb ac adnoddau o ran staff.

Ymysg yr awgrymiadau trafndiaeth roedd treialon e-sgwter, manau gwefru cyflym i gerbydau trydan, cynnal ymrwymadau i gynyddu amllder trafndiaeth gyhoeddus, cyllid ar gyfer llwybrau gan roi ystyriaeth gadarnhaol i lwybrau hamdden, gwell cysylltiadau â meysydd awyr a darpariaeth well i feicwyr ar drafndiaeth gyhoeddus.

Cyfeiriwyd at ffyrdd hefyd gyda galwadau i ddechrau cludo nwyddau ar y rheilffyrdd yn hytrach na'r ffyrdd a sicrhau na chaiff ffyrdd eu hesgeuluso yn y cynllun.

Dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i drafndiaeth gynaliadwy yn y broses gynllunio a rhoi blaenoriaeth i seilwaith Teithio Llesol. Fodd bynnag, roedd pryder na fyddai'n bosibl sicrhau bod y cynigion datblygu tir yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau trafndiaeth.

Gofynnwyd am ragor o eglurder yn y cynllun, gan gynnwys canfod a yw prosiectau yn ddyheadol neu'n gyflawnadwy; rôl Llywodraeth y DU wrth integreiddio trafndiaeth a'r heriau a allai ddeillio o hyn; codi ffi am barcio a defnyddio ffyrdd; cyllid a chymorth i awdurdodau lleol; a chynnwys uchelgeisiau ar gyfer gorllewin Cymru yn y cynllun.

Gofynnwyd hefyd am fesurau i fynd i'r afael yn well â thlodi tanwydd, ansawdd aer ac anghydraddoldebau iechyd.

Roedd cysylltedd digidol a llythrennedd ac opsiynau i dalu ag arian parod yn bryder, ynghyd â chysylltedd gwledig lle nad yw ysgolion, ysbytai a siopau yn agos at ei gilydd yn aml.

5 Ymatebion a Chyflawni Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

- **Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio**

Croesawodd yr ymatebwyr flaenoriaeth y cynllun i ddod â gwasanaethau i bobl fel bod llai o angen iddynt deithio, ond roedd pryderon am allu'r cynllun i gyflawni hyn yn cynnwys y canlynol: mae gwasanaethau cymunedol, fel ysbytai, yn aml wedi'u lleoli'n ganolog; mae gwasanaethau masnachol, gan gynnwys siopau, yn tueddu i fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd â phoblogaeth uwch; ac mae rhai uchelgeisiau, fel canolfannau cydweithio, yn dibynnu ar fuddsoddwyr preifat ac, felly, gall fod yn anoddach i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith. Byddai mwy o effaith ar gymunedau gwledig lle mae prinder gwasanaethau a mwy o angen i deithio i'w cyrraedd.

Nododd un o'r ymatebwyr fod llawer o wasanaethau ar gael yn lleol, ond mai dim ond mewn car y gellir eu cyrraedd, ac aeth ymlaen i ofyn am fwy o gynlluniau trafnidiaeth lleol iawn i fynd i'r afael â hyn.

Bydd cynllunio yn chwarae rôl allweddol wrth bennu safleoedd datblygu newydd, lleoliadau gwasanaethau newydd a sicrhau bod gan adeiladau newydd fynediad hawdd i lwybrau cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Felly, gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch polisïau cynllunio.

“Bydd yn bwysig sicrhau bod safleoedd datblygu yn y dyfodol yn cael eu dewis o ran eu gallu i hyrwyddo datblygiad sy'n gysylltiedig â theithio. Drwy sicrhau bod safleoedd datblygu yn cael eu lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy, gyda mynediad da i opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy a gwasanaethau lleol, gellir sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well ag egwyddorion Cymdogaethau 20 munud.”

Sefydliad, Ymatebydd 60, C2

- **Blaenoriaeth 2: Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy'n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.**

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y cynllun yn cyd-fynd â'r flaenoriaeth i alluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd.

“O blith tair prif flaenoriaeth Llwybr Newydd, bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cyfrannu'n benodol at yr ail o'r rhain, gan alluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws drwy wasanaethau a seilwaith trafnidiaeth hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon.”

Sefydliad, Ymatebydd 83, C3

Mae cysylltedd ledled y wlad gyfan yn hanfodol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig sy'n llai tebygol o fod â seilwaith sy'n bodoli eisoes; ac er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun, gofynnodd ymatebwyr am ystyriaeth ranbarthol, dull

gweithredu cydgysylltiedig o ymdrin â buddsoddi a mentrau strategol a rhwydwaith ehangach o fannau gwefru ar gyfer cerbydau trydan.

Roedd cysylltedd digidol hefyd yn bwysig, gan gynnwys mynediad digidol a llythrennedd digidol ehangach.

Gall fod angen diwygio polisiau a deddfwriaeth er mwyn integreiddio bysiau yn llawn â dulliau trafndiaeth gyhoeddus eraill ac mae angen i drafndiaeth gyhoeddus fod yn ddibynadwy, yn gyfleus ac yn gwbl hyblyg er mwyn bod yn ddeniadol i ddefnyddwyr.

Roedd ansawdd rhwydweithiau ffyrdd lleol yn bryder i rai ymatebwyr, gyda cheisiadau i gynnwys rhaglen gynnal a chadw a datblygu er mwyn sicrhau bod llwybrau'n ddiogel ac yn addas at ddefnydd busnes, ac i feicwyr.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch y defnydd o drenau diesel a'r angen i drafndiaeth fod yn gynaliadwy.

- **Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i drafndiaeth fwy cynaliadwy.**

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylid helpu pobl i newid y ffordd maent yn teithio, ond bod angen cydnabod y rhesymau dros y dewisiadau a wneir gan bobl a'r modd y gellid mynd i'r afael â'r rhain.

“Yr hyn a all fod yn anodd mewn ardaloedd gwledig yw annog newid sylweddol mewn ymddygiad i ddulliau teithio mwy cynaliadwy o ystyried y ddaearyddiaeth, y natur wledig a'r seilwaith sydd eisoes ar waith.”

Sefydliad, Ymatebydd 77, C8

Croesawyd y bwriad i gefnogi busnesau i gymell cyflogaion i ddefnyddio dulliau teithio eraill, defnyddio canolfannau symudedd a sicrhau dull integredig ar gyfer y daith gyfan. Fodd bynnag, gofynnwyd am i'r rhain ddigwydd yn gynt er mwyn annog pobl i newid eu dulliau teithio.

Cafwyd ceisiadau hefyd am raglen glir sydd â'r nod o newid ymddygiadau ac annog pobl i symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio ceir preifat.

6 Crynodeb

Roedd mwy nag un rhan o dair o'r ymatebwyr, sef 41% (40) yn cytuno y byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod pobl yn newid i ddulliau teithio mwy cynaliadwy ac roedd 43% (40) yn cytuno y byddai'n lleihau allyriadau. Cafwyd rhagor o gydnabyddiaeth bod y cynllun cyflawni hwn ar gyfer trafndiaeth yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd ac y bydd cynlluniau eraill yn esblygu er mwyn cyflawni uchelgeisiau hirdymor Llwybr Newydd.

Nododd ymatebwyr fod heriau i gyflawni Teithio Llesol mewn cymunedau gwledig a bod pryderon y gall diffyg seilwaith a chysylltedd achosi anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol dinesig/gwledig, yn ogystal ag effeithio ar y Gymraeg, o ystyried y dwyster uwch o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd mwy gwledig. Roedd

mwy o bryder ynghylch fforddiadwyedd cyffredinol a bod cost seilwaith yn arwain at faich ariannol hirdymor ar bobl Cymru.

Ymysg y meysydd i'w gwella a awgrymwyd roedd ffocws cryfach ar Deithio Llesol a rhaglen gliriach a oedd yn ystyried hygyrchedd, heriau cymunedau ar y cyrion a chymunedau gwledig ac yn cymell newid mewn ymddygiad.

“Nid yw'r cynllun yn cynnwys llawer a fydd yn cymell pobl i newid eu dulliau teithio, a bron dim a fydd yn cymell pobl i beidio â defnyddio cerbydau modur.”

Sefydliad, Ymateb 67, C1

Er bod cefnogaeth eang i Deithio Llesol, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y byddai peidio â chynnwys cynllun i wella a chynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd yn cael effaith negyddol ar yr economi, gwasanaethau a chymunedau gwledig.

“Mae priffyrdd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn parhau i fod yn hollbwysig ar gyfer busnes/yr economi, ac mae eu hangen hefyd ar gyfer bysiau, beicwyr a cherbydau brys.”

Sefydliad, Ymateb 60, C6

Cwestiynodd ymatebwyr y terfyn cyflymder a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar nifer y bobl sy'n teithio ar fysiau, tagfeydd ac allyriadau. Roedd pryder hefyd am y cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a'r posibilrwydd y byddai'n annog anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Gan fod hyn yn allweddol i newid dulliau teithio, argymhellwyd bod angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn fforddiadwy, yn hygyrch, yn ddiogel ac yn gyfforddus er mwyn cael ei hyrwyddo fel dewis amgen deniadol. Mae hefyd angen ystyried teithiau cysylltiedig a'r cyfleusterau sy'n ofynnol i alluogi hyn.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu uchelgeisiau'r cynllun ond nodwyd y byddai rhagor o fanylion o fudd i lwyddiant y cynllun. Ymysg y ceisiadau roedd ymrwymadau cyflawni, amserlenni a chyllidebau cliriach, egluro rolau awdurdodau lleol a chyrrff eraill, gan gynnwys y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, ac ystyried adolygiadau a strategaethau eraill fel Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ac Adolygiad Ffyrdd Cymru, ynghyd â chynnwys mwy o weithio cydweithredol rhwng sectorau.

“Nid yw'r cynllun yn nodi rolau a chyfrifoldebau o ran rhoi'r cynllun ar waith na dyrannu cyllid. Nid yw'n cynnwys amserlenni sy'n golygu y bydd yn anodd monitro cynnydd a chymryd camau unioni os bydd prosiectau'n dechrau mynd ar ei hôl hi.”

Sefydliad, Ymateb 86, C8

Hefyd, gallai diffyg sgiliau a gallu amharu ar gynnydd ac roedd angen ystyried ffyrdd i fynd i'r afael â hyn ymhellach.

Argymhellwyd y dylid ystyried y manylion hyn wrth gadarnhau Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 - 2027.

7 Cyfeiriadau

Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 [ar-lein] Ar gael: [yma](#)

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. [ar-lein]
Ar gael: [yma](#)

Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) [ar-lein] Ar gael: [yma](#)

8 Atodiadau

Atodiad 1: Sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad:

- Anabledd Dysgu Cymru
- CECA Cymru
- CPT Cymru
- Cycling UK
- Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (CTA)
- Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Casnewydd
- Cyngor Ceredigion
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
- Cymdeithas Ddinesig Caerllion
- Cymdeithas Eryri
- Cymdeithas Gysylltiedig Peirianwyr Locomotifau a Dynion Tân (ASLEF)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Cymdeithas Rheilffyrdd Treftadaeth
- Cymdeithas y Siopau Cyfleustra (ACS)
- Chwarae Teg
- Defnyddwyr Bysiau Cymru
- Enterprise Holdings
- Ffocws ar Drafnidiaeth
- Fforwm Beicio Sir Gâr
- Great Western Railway
- Grŵp Trawsbleidiol – Deddf Teithio Llesol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Leonard Cheshire
- Midlands Connect
- Railfuture Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB)
- Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth yn y DU (CILT)
- Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (CIHT)
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE)
- Sustrans
- Tarmac
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru / Mid Wales Transportation (Trac)
- Wheelwrights
- Y Gymdeithas ar gyfer Ymgynghori a Pheirianeg
- Y Gymdeithas Cludiant Ffyrdd (RHA)
- Y Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol
- Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)
- Y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI)
- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Zenith Logistic Consultants Ltd